WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Llywodraethu Da wrth Benderfynu ar Newidiadau Sylweddol i Wasanaethau – **Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot**

Blwyddyn archwilio: 2016-17

Dyddiad cyflwyno: Awst 2017

Cyfeirnod y ddogfen: 126A2017-18

Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Swyddfa Archwilio Cymru yn info.officer@audit.wales.

Y tîm a gyflawnodd y gwaith oedd Steve Barry, Samantha Clements, Robert Hathaway a Non Jenkins o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

# Cynnwys

Mae trefniadau llywodraethu'r Cyngor ar gyfer newidiadau sylweddol i wasanaethau yn gymesur â'u graddfa a'u cymhlethdod ond mae'r gwerthusiad o'u heffaith yn anghyson.


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Cynigion ar gyfer gwella 5

Adroddiad manwl

Mae trefniadau llywodraethu'r Cyngor ar gyfer newidiadau sylweddol i wasanaethau yn gymesur â'u graddfa a'u cymhlethdod ond mae'r gwerthusiad o'u heffaith yn anghyson 6

Caiff penderfyniadau eu llywio gan flaenoriaethau corfforaethol, eu hysbysu gan anghenion lleol, a'u gwneud gan ystyried yr adnoddau sydd ar gael 6

Mae gan y Cyngor ddull rheoli rhaglen eglur i lywodraethu cynigion ar gyfer newidiadau sylweddol i wasanaethau ond mae'r trefniadau ar gyfer cynigion risg is yn llai ffurfiol 7

Mae'r ystod o wybodaeth a ddarperir i'r unigolion sy'n gwneud penderfyniadau wrth benderfynu ar newidiadau sylweddol i wasanaethau yn amrywio ac nid yw bob amser yn cynnwys manylion dewisiadau amgen 8

Mae'r Cyngor yn ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn modd priodol ac mae pwyllgorau craffu yn herio yn rheolaidd gynigion i newid gwasanaethau 9

Mae'r Cyngor yn dysgu o'i brosesau gwneud penderfyniadau ond nid yw'n glir sut y caiff effaith penderfyniadau i newid gwasanaethau yn y dyfodol ei gwerthuso 11

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

1 ‘Governance is about how public bodies ensure that they are doing the right things, in the right way, for the right people, in a timely, inclusive, open, honest and accountable manner. It comprises the systems and processes, and cultures and values, by which public bodies are directed and controlled and through which they account to, engage with and, where appropriate, lead their communities’.[1]

2 Mae llywodraethu da yn hanfodol ar gyfer gwarchod arian cyhoeddus yn effeithiol a pharhau i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus effeithlon y mae gan bobl ffydd ynddynt. Mae’r hinsawdd ariannol bresennol a setliadau llai ar gyfer llywodraeth leol yn ogystal â galw cynyddol am rai gwasanaethau yn golygu bod pob cyngor yn debygol o barhau i fod angen gwneud penderfyniadau ynghylch sut y caiff gwasanaethau eu trefnu yn y dyfodol a faint o ddarpariaeth gwasanaeth fydd ar gael. Mae’n briodol bod cyrff cyhoeddus yn parhau i geisio gwella. Gwneir newidiadau bach, bob yn dipyn, i ddarpariaeth gwasanaeth, ar lefel rheolwyr a swyddogion gweithredol yn rhan o benderfyniadau gweithredol arferol. Fodd bynnag, mae llywodraethu da wedi ei gefnogi gan gynllunio effeithiol a phrosesau cadarn yn allweddol wrth benderfynu ar newidiadau sylweddol i wasanaethau. Mae penderfyniadau o’r fath yn aml yn ddadleuol, yn creu llawer o ddiddordeb lleol a gallant gael effaith sylweddol ar yr unigolion a’r grwpiau yr effeithir arnynt.

3 O fis Ebrill 2016, mae’n ofynnol i gynghorau gydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) a’r Canllawiau Statudol cysylltiedig. Mae’r Canllawiau Statudol yn nodi: ‘Gyda'i gilydd, bwriedir i'r saith nod llesiant a'r pum ffordd o weithio a ddarperir gan y Ddeddf gefnogi a darparu gwasanaeth cyhoeddus sy'n diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain’.[2] Mae’r ddeddfwriaeth hon yn pwysleisio pwysigrwydd llywodraethu effeithiol wrth gyflawni amcanion llesiant.

4 Mae pwyslais yr adolygiad hwn ar effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (y Cyngor) ar gyfer penderfynu ar newidiadau sylweddol i wasanaethau. Rydym yn diffinio hyn fel unrhyw newid sylweddol wrth ddarparu gwasanaethau a/neu unrhyw newid sylweddol ym mhrofiad defnyddwyr gwasanaeth allanol o’r gwasanaethau. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, newidiadau sylweddol i’r modd y caiff gwasanaeth ei ddarparu, lefel y gwasanaeth a ddarperir, i ba raddau y mae’r gwasanaeth ar gael neu gost y gwasanaeth.

5 Gan ystyried fframwaith diwygiedig y Chartered Institute of Public Finance and Accountancy (CIPFA) sef ‘Delivering good governance in local government’ fel safon briodol, mae’r adolygiad hwn yn rhoi llinell sylfaen i’r Cyngor, ar gyfer

[1] CIPFA/SOLACE Delivering Good Governance in Local Government: Framework 2007

[2] **Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol, Canllawiau Statudol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015**, Llywodraeth Cymru

cynllunio gwelliannau eraill. Yn yr asesiad hwn, a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2016, i lywio ein hasesiad o drefniadau cyffredinol y Cyngor ar gyfer datblygu a phenderfynu ar newidiadau i wasanaethau gwnaethom edrych ar agweddau ar drefniadau gwneud penderfyniadau yn gysylltiedig ag amrywiaeth o gynigion sylweddol i newid gwasanaethau. Roedd yr enghreifftiau o newidiadau i wasanaethau y gwnaethom eu hystyried yn cynnwys:

- diwygio oriau agor safleoedd amwynder dinesig;
- trosglwyddo ased cymunedol, sef cyfleuster chwaraeon a'r tir o'i amgylch;
- trosglwyddo ased cymunedol sef Canolfan Gymuned; ac
- ailfodelu Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion – datblygu Gofal Integredig yn y Gymuned.

6 Ni wnaethom edrych yn fanwl ar bob un o'r penderfyniadau i newid gwasanaethau unigol, ond yn hytrach eu defnyddio fel enghreifftiau o sut y mae'r Cyngor yn gwneud penderfyniadau ar newidiadau i wasanaethau.

7 Yn yr adolygiad hwn daethom i'r casgliad bod trefniadau llywodraethu'r Cyngor ar gyfer newidiadau i wasanaethau yn gymesur â'u graddfa a'u cymhlethdod ond mae'r gwerthusiad o'u heffaith yn anghyson.

# Cynigion ar gyfer gwella

Mae'r tabl isod yn nodi ein cynigion ar gyfer gwella.

Arddangosyn 1: cynigion ar gyfer gwella

| **Cynigion ar gyfer gwella** | |
|---|---|
| C1 | Dylai'r Cyngor ddatblygu mwy o ganllawiau i swyddogion er mwyn atgyfnerthu'r hyn sy'n ofynnol o ran cynnal arfarniadau o ddewisiadau ac adrodd arnynt ar gyfer cynigion i newid gwasanaethau a gwybodaeth arall. |
| C2 | Dylai'r Cyngor nodi trefniadau ar gyfer monitro effaith newidiadau i wasanaethau ar adeg gwneud y penderfyniad. |
| C3 | Dylai'r Cyngor gryfhau ei systemau i sicrhau y darperir yn rheolaidd adroddiadau monitro y mae'r pwyllgorau craffu yn gofyn amdanynt. |

# Adroddiad manwl

## Mae trefniadau llywodraethu'r Cyngor ar gyfer newid gwasanaethau yn gymesur â'u graddfa a'u cymhlethdod ond mae'r gwerthusiad o'u heffaith yn anghyson

### Caiff penderfyniadau eu llywio gan flaenoriaethau corfforaethol, eu hysbysu gan anghenion lleol, a'u gwneud gan ystyried yr adnoddau sydd ar gael

8 Ar adeg ein hadolygiad, ym mis Tachwedd 2016, roedd gan y Cyngor chwe blaenoriaeth gwella corfforaethol yn ei Gynllun Gwella Corfforaethol (CGC) 'Ymateb i'r Her':

- Dyfodol Mwy Diogel a Llewyrchus
- Ysgolion Gwell, Rhagolygon Gwell
- Gwella Canlyniadau, Gwella Bywydau
- Ffyniant i bawb
- Arbed, Ailddefnyddio, Ailgylchu
- Digidol o ddewis

9 Mae newidiadau i wasanaethau a rhoi'r gorau i ddarparu rhai gwasanaethau yn nodwedd sylfaenol o gynlluniau'r Cyngor i gyflawni cyllideb wedi'i mantoli.

10 Ers 2010, mae'r Cyngor wedi arbed tua £59 miliwn, mewn termau real, o'i gyllideb refeniw ac wedi lleihau 20% ar ei weithlu trwy gyfuniad o ddiswyddiadau gwirfoddol a throsglwyddo swyddogaethau. Blaen-gynllun Ariannol y Cyngor (BA) yw'r prif gyfrwng cynllunio. Mae hwn yn nodi goblygiadau ariannol y cynlluniau arbed arian i gyflawni cyllideb wedi'i mantoli. Mae cysylltiadau clir rhwng y BA a'r CGC i sicrhau bod y dyraniad o adnoddau yn adlewyrchu blaenoriaethau corfforaethol.

11 Fel yn y blynyddoedd blaenorol, cynhaliodd y Cyngor ymarfer ymgynghori ac ymgysylltu eang ynghylch ei arbedion arfaethedig i'r gyllideb a'r amcanion gwella drafft ar gyfer 2016-17 cyn mabwysiadu ei gyllideb a datblygu ei strategaeth arbedion. Roedd y broses ymgysylltu yn cynnwys amrywiaeth eang o randdeiliaid gan gynnwys y sectorau busnes, gwirfoddol a chyhoeddus, undebau llafur, y cyfryngau, cynghorau tref a chymuned. Ymgysylltodd hefyd â defnyddwyr gwasanaeth ar ddarpariaeth gwasanaethau penodol.

12 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod llawer mwy i'w wneud i ymwreiddio ei amcanion llesiant yn ei fframwaith corfforaethol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae wedi cytuno ar bolisïau drafft ac mae'n sicrhau y bydd ei Gynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2017 yn integreiddio gydag amcanion llesiant Cymru gyfan, ac yn helpu i gefnogi eu darpariaeth.

## Mae gan y Cyngor ddull rheoli rhaglen eglur i lywodraethu cynigion ar gyfer newidiadau sylweddol i wasanaethau ond mae'r trefniadau ar gyfer cynigion risg is yn llai ffurfiol

13 Mae'r Cyngor wedi gwneud llawer o benderfyniadau i newid gwasanaethau yn sylweddol yn y gorffennol gan gynnwys trosglwyddo ei stoc dai i landlord tai cymdeithasol cofrestredig, trosglwyddo rheolaeth ei gartrefi gofal preswyl i ddarparwr allanol a throsglwyddo ei wasanaeth hamdden i Ymddiriedolaeth ddielw. Mae rhai gwasanaethau eraill, fel y gwasanaeth twristiaeth a weithredwyd gan y Cyngor, wedi dod i ben.

14 Gwneir y penderfyniadau hyn ar newidiadau sylweddol i wasanaethau o fewn fframwaith rheoli rhaglen corfforaethol. Defnyddir y fframwaith hwn ar gyfer cynigion i newid gwasanaethau ar raddfa fawr pan fo'r Tîm Rheoli Corfforaethol o'r farn bod lefel y risg yn ddigon uchel.

15 Mae Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor (DLlB) ar gyfer 2015-16 yn disgrifio ei drefniadau llywodraethu a'r dulliau rheoli a ddefnyddir i reoli'r risgiau o fethu â chyflawni amcanion strategol. Mae'r DLlB yn cydnabod bod rhai meysydd lle mae'r cynnydd wedi bod yn araf oherwydd gostyngiad i niferoedd swyddogion ar ôl cynnal pedwar cylch o ddiswyddiadau gwirfoddol ac ymddeoliadau cynnar. Mae'r DLlB yn nodi bod y Cyngor ' hefyd yn defnyddio offerynnau rhaglen a phrosiect i gefnogi gweithrediad y newid ar draws y Cyngor pan fo'r defnydd o offerynnau o'r fath yn effeithlon ac yn effeithiol'.

16 Mae gan y Cyngor drefniadau rheoli rhaglen i oruchwylio newid sylweddol mewn modelau darparu gwasanaeth yn y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion. Caiff gweithgareddau penodol sy'n ymwneud â'r rhaglen hon eu cynnwys mewn adroddiadau chwarterol ar y prif bwyntiau ar gyfer pob blaenoriaeth gorfforaethol. Mae Grŵp Cyfarwyddwyr Corfforaethol y Cyngor yn gweithredu fel y bwrdd rhaglen trosfwaol ac mae'n adolygu'r adroddiadau ar y prif bwyntiau hyn. Cyflwynir yr adroddiadau hefyd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol yn y Cyngor. Mae'r adroddiadau yn disgrifio'r cynnydd o'i gymharu â phob canlyniad. Enghraifft o hyn yw 'Llwybr i Annibyniaeth', sy'n cwmpasu modelau darparu newydd i integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol gyda'r nod o 'Wella Canlyniadau, Gwella Bywydau'.

17 Caiff cynigion eraill i newid gwasanaethau eu datblygu ar lefel cyfarwyddiaeth y tu allan i'r fframwaith rheoli rhaglen ffurfiol. Mae'r Cyngor yn dymuno i'r dull hwn fod yn hyblyg ac felly'n fwy effeithiol o ran cyflymder gwneud penderfyniadau a galw llai beichus ar amser swyddogion ac aelodau.

18 Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi'n eglur y swyddogaethau gwahanol, ond sy'n cydweddu, y cynghorwyr a'r swyddogion, gan gynnwys cyfrifoldebau swyddogion cyfreithiol, cyllid a monitro. Trwy ein cyfweliadau â'r Cabinet ac aelodau craffu rydym wedi dod i'r casgliad bod ganddynt ddealltwriaeth dda o'u swyddogaethau ac wedi ei gwneud yn glir bod y cydweithio rhwng y cabinet a'r uwch reolwyr yn effeithiol. Ceir parch ac ymddiriedaeth yn ei gilydd ond hefyd parodrwydd i herio.

## Mae'r ystod o wybodaeth a ddarperir i bobl sy'n gwneud penderfyniadau wrth benderfynu ar gynigion i newid gwasanaethau yn amrywio ac nid yw bob amser yn cynnwys manylion dewisiadau amgen

19 Prif ysgogwr y Cyngor i newid gwasanaethau yw cynnal cyllideb wedi'i mantoli gan hefyd reoli'r cynnydd yn y galw am lawer o wasanaethau. Mae hyn yn erbyn cefndir o gyllideb sy'n crebachu ac ansicrwydd economaidd.

20 Gan fod y Cyngor yn darparu, neu'n goruchwylio, amrywiaeth o wahanol wasanaethau, mae penderfyniadau ynghylch newid i wasanaethau yn amrywio o ran cymhlethdod. Canfuom fod yr ystod o wybodaeth a ddarperir cyn gwneud penderfyniad yn amrywio. Dangosir hyn yn y pedair enghraifft ganlynol:

- gofynnodd Bwrdd Rhaglen/Grŵp Cyfarwyddwyr Corfforaethol y Cyngor am gymeradwyaeth gan Bwyllgor Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai y Cabinet i ymgynghori ar fodelau newydd o Gyfleoedd Gofal Dydd. Cafodd y cynnig hwn ei lywodraethu gan ddull rheoli rhaglen. Ni wnaeth yr adroddiad geisio dylanwadu ar y Cabinet drwy argymell dewis a ffefrir. Y dewisiadau a gyflwynwyd oedd cadw'r sefyllfa bresennol, trosglwyddo i reoli a pherchnogaeth gymunedol neu ddatblygu model integredig cymunedol. Roedd yr adroddiad yn dryloyw gan ei fod yn cynnwys dadansoddiad manwl o ganlyniadau ymgynghoriad yr oedd wedi'i gynnal i lywio'r cynigion. Yn ogystal â hyn, roedd canlyniadau o Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gael drwy'r porth ymgynghori yn llyfrgell yr aelodau.
- yn rhan o raglen arbedion parhaus y Cyngor, cynigiodd y Cyfarwyddwr Addysg, Dysgu Gydol Oes a Hamdden yn ei adroddiad i Fwrdd Adfywio Economaidd a Chymunedol y Cabinet, adolygu'r stoc bresennol o 11 o Ganolfannau Cymuned neu Ganolfannau Addysg/Menter Gymunedol. Roedd bwriad yr adroddiad yn bellgyrhaeddol, gan gyflwyno sawl dewis ar gyfer pob canolfan, cyfleoedd i ailddiffinio diben y gwasanaeth cyfan ac arddel dull cyfannol tuag at ddarpariaeth gymunedol er mwyn sicrhau y defnydd mwyaf a lleihau cymorthdaliadau cymaint â phosibl. Ni wnaeth yr adolygiad hwn fabwysiadu dull rheoli rhaglen, ond roedd y data a ddarparwyd yn fanwl ac yn dryloyw. Roedd yr adroddiad yn nodi tri dewis, sef tynnu'r holl gyllid yn ôl, ad-drefnu'r ddarpariaeth gwasanaeth bresennol fesul ased unigol yn dibynnu ar ei gyflwr/safon cynnal a chadw, y gwasanaethau a ddarperir a'r nifer sy'n eu defnyddio (hwn a ffafriwyd), neu roi'r cytundeb i reoli'r gwasanaeth i gwmni allanol.
- i reoli tynnu cyllideb yn ôl yn llwyr ar gyfer cynnal a chadw ac atgyweirio yr holl feysydd a chyfleusterau chwaraeon, argymhellodd adroddiad ar y cyd gan Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol i Fwrdd yr Amgylchedd ac Adfywio'r Cabinet y dylid caniatáu prydles i ymddiriedolwyr clwb rygbi lleol. Ni wnaeth y cynnig hwn fabwysiadu dull rheoli rhaglen. Roedd penderfyniad y Cabinet yn seiliedig ar gyngor gan yr

Adran Eiddo ac Adfywio a'r Gwasanaeth Cyfreithiol, a'r canlyniad dymunol oedd na fyddai'r cynnig yn arwain at golli unrhyw fannau agored ac y byddai'n diogelu'r defnydd o'r meysydd chwarae yn y dyfodol. Roedd y data a gyflwynwyd i gefnogi'r penderfyniad yn cynnwys canlyniadau o hysbysiad cyhoeddus o'r gwerthiant, hyd y brydles a'r rhent blynyddol. Ni chyflwynwyd unrhyw ddewisiadau yn yr adroddiad ac ni nodwyd unrhyw arbedion cysylltiedig, felly nid yw'n amlwg pa un a ystyriwyd unrhyw ddewisiadau eraill.

- cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Stryd i Fwrdd yr Amgylchedd a Phriffyrdd y Cabinet i ystyried oriau agor Canolfannau Gwastraff ac Ailgylchu yn y Cartref i reoli pwysau ar y gyllideb ac i gyfochri oriau agor y canolfannau â rhai awdurdodau lleol cyfagos. Ni wnaeth y cynnig hwn fabwysiadu dull rhaglen reoli. Ni chyflwynwyd dewisiadau yn yr adroddiad ac nid oedd unrhyw adlewyrchu ar effaith bosibl y Flaenoriaeth Gorfforaethol 'Lleihau, Ailddefnyddio, Ailgylchu', sy'n uniongyrchol gysylltiedig, ond cofnodwyd yn glir yr arbediad arfaethedig o £35,000 yn y flwyddyn gyntaf ac oddeutu £41,000 y flwyddyn ar ôl hynny.

21 Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu dull rhesymol o wneud penderfyniadau yn gysylltiedig â newid gwasanaethau gan ddefnyddio technegau rheoli rhaglen/prosiect pan fo'r raddfa a'r effaith bosibl yn golygu ei bod fwyaf effeithlon i wneud hynny. Fodd bynnag, mae'r hyblygrwydd hwn wedi golygu bod ystod yr wybodaeth a gyflwynir yn amrywio. Byddai datblygu 'rhestr wirio' i lywio'r holl adroddiadau ar gynigion i newid gwasanaeth yn galluogi:

- rheolwyr i ddeall yn well yr ystod o wybodaeth sydd i'w darparu er mwyn cefnogi cynigion i newid gwasanaethau yn ddigonol; ac
- aelodau i wybod pa ystod o wybodaeth y dylent yn rhesymol ei disgwyl i'w cynorthwyo i wneud penderfyniadau ar newidiadau i wasanaethau.

## Mae'r Cyngor yn ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn modd priodol ac mae pwyllgorau craffu yn rheolaidd yn herio cynigion i newid gwasanaethau

22 Mae'r Cyngor yn ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth mewn modd priodol, gan ddefnyddio amrywiaeth o wahanol ddulliau a cheir tystiolaeth o ymgysylltu â rhanddeiliaid. Er enghraifft, er mwyn asesu effaith bosibl newidiadau arfaethedig i'w stoc o 11 o Ganolfannau Cymuned neu Ganolfannau Addysg/Menter Gymunedol, cynhaliodd y Cyngor ymgynghoriad wedi'i strwythuro. Roedd hwn yn cynnwys adolygiad eang i weithrediad y canolfannau cymunedol presennol ynghyd â chyfres o gyfarfodydd cyhoeddus ledled y Fwrdeistref Sirol. Cynhaliwyd y cyfarfodydd cyhoeddus mewn canolfannau cymunedol gan roi cyfle i ddefnyddwyr gwasanaeth wrando ar y dewisiadau ar gyfer newid gwasanaethau a oedd dan ystyriaeth, a rhoi sylwadau yn uniongyrchol i'r swyddogion cyfrifol. Nodwyd bod

llawer iawn o bobl wedi mynychu'r cyfarfodydd cyhoeddus a bod hyn yn arwydd o bwysigrwydd hyn i'r gymuned.

23 Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaeth ar gyfer Gwastraff a Gwasanaethau Stryd gynnig i ostwng amserau agor Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref y Cyngor er mwyn cyfochri'r Cyngor ag awdurdodau cyfagos ac i gyflawni arbedion. Yn ystod mis Mehefin a mis Gorffennaf 2015 cynhaliwyd proses ymgynghori ar-lein, ac yn y safleoedd, gyda thrigolion sy'n defnyddio Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref y Cyngor.

24 Mae enghreifftiau eraill o ymgynghori ar newidiadau i wasanaethau yn cynnwys:

- cyflwynwyd hysbysiad cyhoeddus o'r bwriad i werthu'r safle ym Mharc Coffa Talbot ddydd Gwener 6 Mawrth a dydd Gwener 13 Mawrth a'r dyddiad cau ar gyfer derbyn gwrthwynebiadau oedd 20 Mawrth.
- gofyn am gyngor gan y Comisiynydd Pobl Hŷn ynglŷn â'i disgwyliadau o sut y gellir bodloni hawliau pobl hŷn wrth gau cartrefi gofal. Roedd amrywiaeth o ddulliau o ymateb i'r ymgynghoriad ar gael i sicrhau bod ymatebwyr yn gallu rhoi eu sylwadau yn y modd yr oedd yn well ganddynt gan gynnwys: ar-lein, ar ffurflenni papur, e-bost, ar y ffôn, mewn cyfarfodydd ac ar y cyfryngau cymdeithasol.

25 Mae swyddogaeth ddisgwyliedig y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu wedi'i chofnodi yn holl adroddiadau'r Cyngor, sy'n cynnwys yr angen i hybu arloesedd drwy herio'r sefyllfa bresennol ac felly annog gwahanol ffyrdd o feddwl a dewisiadau ar gyfer darparu gwasanaethau.

26 Mae craffu cyn gwneud penderfyniad yn cefnogi sicrwydd a her effeithiol a cheir tystiolaeth bod Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu wedi dylanwadu ar benderfyniadau, er enghraifft, o ran argymell oedi penderfyniadau ar safleoedd Amwynder Dinesig tan fod Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei gynnal. Mae'r Wybodaeth sydd ar gael i Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn ddigon manwl ac amserol yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae'r safle Amwynder Dinesig yn enghraifft o'r angen i sicrhau bod ystod safonol o wybodaeth wedi'i chynnwys yn yr holl adroddiadau i wella'r prosesau gwneud penderfyniadau. Byddai hyn yn cynnwys canlyniad Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb neu esboniad ynghylch pam nad ystyriwyd bod angen cynnal asesiad o'r fath.

27 Mae llawer o enghreifftiau o'r prosesau craffu yn herio'r wybodaeth a gyflwynwyd mewn adroddiadau pwyllgor i gefnogi cynigion ar gyfer newid gwasanaethau, er enghraifft:

- Safleoedd Amwynder Dinesig – Amlygodd Aelodau o Bwyllgor Craffu yr Amgylchedd a Phriffyrdd bod rhai trigolion wedi nodi y byddai'n well ganddynt i'r safleoedd fod ar agor yn hwyrach gan fod hyn yn cynnig mwy o hyblygrwydd, yn enwedig i'r bobl hynny a oedd yn gweithio. Dywedodd swyddogion wrthynt eu bod yn cydnabod y hynny, ond bod angen lleihau costau.

- Canolfannau Cymunedol - gofynnodd Aelodau o Bwyllgor Craffu yr Economi ac Adfywio Cymunedau i swyddogion pa sicrwydd a fyddai ar waith pe byddai trydydd parti yn gofalu am ganolfan gymunedol. Cadarnhawyd y byddai'r prydlesi yn ddigon hir i'w gwneud yn ddeniadol i gymryd gofal ohonynt. Cododd aelodau bryderon ynghylch isbrydlesi ar ôl i drydydd parti gymryd gofal dros gyfleuster. Cadarnhawyd na fyddai hyn yn broblem gan y byddai'r Cyngor yn parhau i gadw'r cytundeb trosfwaol ac yn parhau i reoli pethau.

## Mae'r Cyngor yn dysgu o'i brosesau gwneud penderfyniadau ond nid yw'n glir sut y caiff effaith penderfyniadau i newid gwasanaethau yn y dyfodol eu gwerthuso

28 Mae'r Cyngor yn dangos gallu i ddysgu o'i benderfyniadau, ond mae'n cydnabod yr angen i adolygu effeithiau gwneud penderfyniadau. Er enghraifft, o ran ailfodelu y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion, awgrymodd adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol i Fwrdd Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant y Cabinet y dylid cynnal adolygiad ffurfiol o'r newidiadau i'r gwasanaethau yn rhan o'r Model Integredig Cymunedol. Roedd hyn yn cynnwys cymorth eiriolaeth allanol i ofyn am safbwyntiau pobl ar y gwasanaeth wedi'i ailfodelu yn ogystal â chasglu profiadau'r staff gweithredol. Daeth yr adroddiad i'r casgliad y byddai eiriolaeth allanol yn cael ei chomisiynu pan fyddai gwasanaethau'n cael eu hailfodelu yn y dyfodol, i gynorthwyo unigolion a fyddai'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y newid.

29 Nododd Pwyllgor Craffu yr Economi ac Adfywio Cymunedol fod yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol o'r Adolygiad o Ganolfannau Cymunedol yn datgan y byddai'r cynigion yn effeithio'n andwyol ar yr henoed a gofyn pa gamau lliniaru sydd wedi eu cynllunio i leihau unrhyw effeithiau negyddol. Gofynnodd Aelodau o'r Pwyllgor Craffu am adroddiadau diweddaru ar effeithiau unrhyw newidiadau sy'n codi o'r cynigion ar y grŵp gwarchodedig hwn. Nid oedd yr adroddiadau diweddaru hyn ar gael ar wefan y Cyngor.

30 Yn ogystal â hyn, roedd yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol a oedd yn cefnogi'r penderfyniad i leihau oriau agor y safle amwynder dinesig yn cyfeirio at yr angen i adolygu effaith lleihau'r oriau agor ymhen chwe mis. Nid oes cofnod yn dangos bod yr adolygiad hwnnw wedi ei gynnal/wedi ei adrodd i'r Bwrdd Cabinet/Craffu ac nid oes modd amlwg o olrhain hynny.

31 Nid yw systemau adrodd ar berfformiad y Cyngor bob amser yn cyfeirio'n uniongyrchol at unrhyw effaith bosibl y byddai newid i wasanaethau yn ei gael ar berfformiad. Byddai hyn yn cynorthwyo'r Cyngor i ddeall effaith newid gwasanaethau yn well. Goruchwylir y gwaith o ailfodelu Gofal Cymdeithasol i Oedolion gan fframwaith rheoli rhaglen y Cyngor. Golyga hyn ei fod yn destun adroddiadau o'r prif bwyntiau a diweddariadau rheolaidd i'r bwrdd rhaglen. Er hyn, mae ein hadolygiad o adroddiadau perfformiad y Cyngor, ymhlith papurau bwrdd

cabinet y Cyngor, wedi dangos nad yw unrhyw gydberthynas ag effaith penderfyniadau eraill i newid gwasanaethau ar berfformiad yn cael ei adrodd. Er enghraifft nid yw adroddiadau perfformiad y Cyngor wedi gwneud cysylltiad rhwng y gostyngiad i oriau agor safleoedd amwynder dinesig a lefelau ailgylchu a chompostio. Nid yw'n glir felly a yw hyn wedi dylanwadu ar darged cyffredinol y Cyngor, a hyd yn oed os na chafodd ddylanwad, nid yw hyn wedi'i esbonio.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone : 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru